
# GWELLIANNAU I'R RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL


## LLEOLIAD: BUSH STREET – Y STRYD FAWR – PROSPECT PLACE


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

### Trosolwg o syniadau dyluniadau ar gyfer Bush Street:

- Adeiladu llwybr cyd-ddefnyddio 3.5 metr o led ar hyd ochr ogleddol Bush Street. Bydd y llwybr hwn yn hwyluso teithio llesol drwy ddarparu cysylltedd di-dor o'r de i'r gogledd o fewn y coridor teithio llesol dynodedig. Yn ogystal, gellir ymestyn cysylltedd tua'r gorllewin i ddarparu ar gyfer datblygiadau posibl yn y dyfodol.
- Lleihau lled y gerbytffordd bresennol o 7.3 metr i 6.1 metr i ddarparu ar gyfer y gwelliannau i'r rhwydwaith teithio llesol. Byddai hyn yn dod o fewn canllawiau'r Llawlyfr Strydoedd a byddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol ar hyn o bryd.
- Bydd addasiadau a chyflwyno mesurau gostegu traffig ychwanegol yn cael eu hystyried i wella diogelwch ar y ffyrdd i ddefnyddwyr y rhwydwaith teithio llesol. Nod y gwelliannau hyn yw cefnogi cysylltedd mwy diogel ac ar yr un pryd darparu buddion ehangach i holl ddefnyddwyr y briffordd.
- Cedwir llwybr arfaethedig di-dor o fewn y llwybrau cyswllt teithio llesol a ddiffiniwyd, gan gynnwys croesfannau nas rheolir lle mae traffig wedi'i ostegu.








Cynlluniau at ddefnydd esbonio yn unig

### Manteision allweddol a chanlyniadau'r dyluniad:

- Yn **gwella** lle a hygyrchedd i gerddwyr
- Yn cyflwyno darpariaeth feicio mewn ffordd sy'n **ddiogel** ac yn ddealladwy
- Yn **darparu** darpariaeth feicio bwrpasol lle nad oedd darpariaeth gan ddilyn canllawiau teithio llesol cyfredol
- Yn cynyddu'r gofod cyffredinol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cerddwyr trwy ychwanegu arwynebau di-dor a gwastad sydd wedi'u lledu; ynghyd â chroesfannau nas rheolir lle mae'r **traffig wedi'i ostegu** i gynorthwyo defnyddwyr a **chynyddu diogelwch**
- Yn cyflwyno **llwybr pwrpasol ar gyfer beicwyr.** Ar hyn o bryd mae'n rhaid iddynt naill ai ddod oddi ar eu beic neu rannu lonydd cerbydau lle nad oes lle iddynt
- Yn **lleihau** gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr drwy annog ymddygiadau cyd-ddefnyddio priodol
- Ystyriaethau ymddygiadol a disgwyliad defnyddwyr: Bwriad y dyluniad yw **darparu ar gyfer beicwyr sy'n llai hyderus yn rhannu'r gerbytffordd**, gan gydnabod bod y defnyddwyr hyn yn fwy tebygol o gynnwys plant, oedolion hŷn, ac unigolion sy'n beicio fel eu dull o deithio. Dyma'r grwpiau y mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn ceisio eu cefnogi.


### Trosolwg o Prospect Place a'r Stryd Fawr





### Trosolwg o syniadau dyluniadau ar gyfer Prospect Place:

- Cyflwyno llwybr cyd-ddefnyddio 3 metr o led o Prospect Place i ochr orllewinol y parc.
- Lledu'r mynediad yn y wal berimedr bresennol i 3.5 metr i ddarparu ar gyfer y llwybr newydd a hwyluso mynediad.
- Llwybr cyd-ddefnyddio i gysylltu â'r rhwydwaith llwybrau troed presennol a symud grisiau i leoliad mwy addas i sicrhau mynediad diogel a heb rwystr.
- Gosod wyneb newydd ar y ffordd fynediad i'r parc coffa i sicrhau cysondeb a diogelwch ar hyd y llwybr.
- Cysylltiad llwybr i gysylltu â llwybr cyd-ddefnyddio presennol i wella cysylltedd ymhellach yn yr ardal.
- Gosod arwyddion priodol ar hyd y llwybr i nodi'n glir cyd-ddefnydd ac i ddarparu modd i ddefnyddwyr ddod o hyd i'w ffordd.

### Opsiwn 1. Prospect Place






### Opsiwn 2. Prospect Place




Cynlluniau at ddefnydd esbonio yn unig

### Llwybr cyd-ddefnyddio'r Stryd Fawr




**Noder bod y dyluniadau hyn yn dal i fod yn y camau rhagarweiniol ac yn destun mireinio trwy drafodaethau, ymgysylltu, ac adborth parhaus.**

### Trosolwg o syniadau dyluniadau ar gyfer y Stryd Fawr:

- Adeiladu llwybr cyd-ddefnyddio 3.5 metr o led, yn ddelfrydol 4 metr o led, ar ochr ogleddol y Stryd Fawr, gyda chysylltedd ym mhob pen â'r coridorau teithio llesol presennol neu rai'r dyfodol.
- Lleihau lled y gerbytffordd bresennol o 6.1 metr i 5.5 metr i ddarparu ar gyfer y gwelliannau i'r rhwydwaith teithio llesol. Byddai hyn yn dod o fewn canllawiau'r Llawlyfr Strydoedd ac fe'i hystyrir yn dderbyniol ar hyn o bryd.
- Cadw parhad y llwybr teithio llesol presennol gan gynnwys croesfannau nas rheolir lle mae traffig wedi'i ostegu.
- Ystyried newid y ddarpariaeth parcio ar y stryd, gyda'r nod o gadw neu gynyddu'r trefniadau presennol.
- Trefniant stryd dawel*.

**Fel rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu'r llwybr, mae datrysiadau traffig cymysg (strydoedd tawel) yn cael eu cyflwyno fel dewisiadau amgen i'w hystyried ymhellach. Gall beicio ar y gerbytffordd fod yn dderbyniol (yn dibynnu ar ddata traffig) os cyflwynir mesurau ychwanegol, megis mesur i ostegu cyflymder a nodweddion diogelwch gwell.*